Teitl y Swydd:	Swyddog Ieuenctid Caerffili
Math o gontract:	Swydd llawn amser, cytundeb tymor-penodol. Cytundeb i ddechrau Medi 2018 (hyd at ddiwedd Mawrth 2019 yn y lle cyntaf - Y nod yw parhau gyda'r swydd ond mae hyn yn ddibynnol ar gyllid).
Oriau:	35 awr yr wythnos (yn cynnwys oriau anghymdeithasol - nos a phenwythnosau)
Graddfa:	Graddfa 5: £19,442 (Pwynt 1) - £22,539 (Pwynt 6)
Lleoliad:	Ysgol Gyfun Cwm Rhymni / Rhanbarth Caerffili a Bargoed

Mae gennym gyfle cyffrous i berson brwdfrydig ymuno â'r tîm Ieuenctid a Chymunedol fel Swyddog Ieuenctid yn rhanbarth Caerffili. Mae'r swydd yn bartneriaeth rhwng Urdd Gobaith Cymru, Menter Iaith Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r prif nod yw cynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gyda phobl ifanc er budd dylanwadu ar eu dewis o iaith gymdeithasol.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Dai Bryer 07976 00 33 21 neu daibryer@urdd.org
.
Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau: 27ain o Fehefin, 2018

Dyddiad Cyfweliad: Wythnos yn cychwyn 2il o Orffennaf, 2018

Ffurflen Gais ar gael o wefan yr Urdd – www.urdd.cymru/

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Swyddog Ieuenctid Caerffili	**Lleoliad:**	Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni
Adran:	Maes	**Yn gyfrifol am:**	Dim yn berthnasol
Yn atebol i :	Rheolwr Ieuenctid a Gwersylloedd Gwent a thrwyddi i Gyfarwyddwr y Dalaith.	**Gradd:**	Gradd: 5

Prif bwrpas y swydd:

Mae'r targedau a'r dyletswyddau isod yn cynrychioli ac yn seiliedig ar ddyheadau Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Menter Iaith Caerffili ac Urdd Gobaith Cymru. Mae'r targedau hefyd yn ymateb i strategaethau'r cyrff yma a hefyd i Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Cynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gyda phobl ifanc er budd dylanwadu ar eu dewis o iaith gymdeithasol, gyda'r targed o gynnal 2 gweithgaredd rheolaidd i bobl ifanc (1 ym Margoed ac 1 yng Nghaerffili) , trefnu gweithgareddau newydd o fewn amser a thu allan i oriau ysgol, ac annog mynychu gweithgareddau'r Urdd a'r Fenter.
- Cynyddu'r nifer o gyfloed ieuenctid Cymraeg yn yr ardal gan adnabod ardaloedd ac arweinwyr priodol. Cynnig 15 o achrediadau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu cyfleoedd gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gyda phobl ifanc Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a chydweithio gydag ysgolion ail iaith sir Caerffili.
- Mapio darpariaeth ieuenctid presennol yr ardal ac adnabod bylchau mewn darpariaeth. Bydd hyn yn amlygu cyfle i lenwi'r bwlch gyda gweithgareddau newydd.
- Sefydlu a chefnogi fforymau ieuenctid cyfrwng Cymraeg gan edrych ar beth sydd yn bodoli yn barod o fewn yr ardal. Sicrhau llais Gymraeg o fewn fforymau presennol.
- Sicrhau fod cyfleoedd i bobl ifanc Cwm Rhymni fynychu cyfnodau preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd, teithiau tramor yr Urdd a theithiau undydd gan ehangu ar y ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau bod rhaglen o gynllunio a gwerthuso manwl. Sicrhau fod cofnod o'r gwaith gan gynnwys data ar niferoedd a gweithgareddau yn cael ei gadw ar raglen maes yr Urdd a systemau data'r cynghorau sir.
- Mynychu cyfarfodydd rheoli'r prosiect er mwyn sicrhau adrodd yn ôl ar yr holl waith yn dymhorol.

Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl.

- Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr / arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Byddai unrhyw brofiad a chymhwyster mewn gwaith ieuenctid o fantais (cynigir cwrs penodol OCN lefel 3 yn rhan o'r swydd onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster).
- Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio gyda mewn partneriaeth gyda chyrff/ mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.
- Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.
- Byddai profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol, o fantais.
- Byddai profiad o lunio a darparu asesiadau risg yn fanteisiol ag ymwybyddiaeth o brosesau iechyd a diogelwch.

Hanfodol:

- Cymhwyster Gwaith Ieuenctid Lefel 2/3
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf
- Mynychu cwrs Asesu Risg (Off-Site Safety)
- Ymwybyddiaeth o Brosesau Achredu/Hyfforddi Pobl Ifanc

Dymunol:

- Gallu gweithio ar liwt eu hunain a hefyd cydweithio fel aelod o dîm.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.
Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ar Fehefin 2018 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	Swyddog Ieuenctid, Caerffili
Yn atebol i:	Swyddog Datblygu
Cyflog:	Ar raddfa 5 Strwythur Cyflog yr Urdd £19,442 (Pwynt 1) - £22,539 (Pwynt 6) Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Cytundeb:	Cyfnod penodol – 12 mis yn gychwynnol gyda'r bwriad i droi yn barhaol, yn dibynnu ar gyllid allanol.
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.